

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:

Val Davies	Glyn Jones	Sian Thomas
Eirian Jones	Keith Lewis	Yvonne Griffiths
Annette Davies	Melfyn Evans	Lynn Evans

Clerc: Anita Evans

Ymddiheuriadau: Haulwen Lewis, Raymond Lewis, Marc Jones, C.S. Linda Evans

Absennol: neb

Cyfieithydd: Hefin Jones

Cyhoedd/Public: Julie Mathews, M. Davies, O. Davies, L. Morris.

1)Agorodd Val Davies y cyfarfod drwy estyn cydymdeimlad diffuant â Haulwen Lewis(yn ei habsennoldeb)ar farwolaeth ei Mam.Roedd Mrs.Lewis wedi gofyn i'r Clerc ddiolch i'r Cyngor am bob arwydd o gydymdeimlad,a'u presenoldeb yn yr angladd.Estynodd wellhad buan i Haydn Jones ar ol llawdriniaeth yn ddiweddar.The chairman Val Davies opened the meeting by extending condolences to Haulwen Lewis on the passing of her mother.Get well wishes will be sent to Haydn Jones following his recent operation.

2)Doedd dim aelod o'r Heddlu yn bresennol.Doedd neb o'r Cyngor am ddatgan diddordeb.Aelodau o'r Cyhoedd—dim sylwadau.No Police were present;there were no declarations of interest;members of the Public —no observations.

3)Cofnodion Mai,cafwyd yn gywir,Annette Davies yn cynnig,a Sian Thomas yn eilio.May minutes found to be correct.

Materion yn codi/matters arising:

1)Newyddion Tony Williams: wedi trefnu glanhau'r draeniau,a chywiro'r arwyddion;mae angen ail foltio'r clustogau cyflymdra i'r ddaear,ac mae wedi siarad â John McEvoy am hyn.The complaints regarding drains and correction of road signs are being dealt with;the speed cushion near Cae'r Felin School in Pencader is to be re bolted.

2)Camerau diogelwch:mae'r Clerc wedi cysylltu â thri chwmni sef Dyfed Alarms,Wales and West Installation,a Carmarthenshire Alarms.Mae'r 3 cynrychiolydd yn dymuno dod mas i weld y Cornel Chwarae ym Mhencader.Yn gynta,bydd rhaid i ni siarad â phwyllgor PIDA ynghlŷn â defnyddio'r Pafiliwn ,wal i osod camera ac ardal tu fewn i weithio'r recordydd.Cynnigiodd Eirian Jones fod llythyr yn cael ei anfon at y pwyllgor yn datgan ein cynlluniau,a'r posibilrwydd y bydd y camera o fudd i'r Pafiliwn hefyd.Eiliodd Yvonne Griffiths,a chynnigiodd Keith Lewis fynd â'r llythyr i'r cyfarfod nesa.The Clerk has contacted 3 cctv companies regarding the Play Corner,and all reps. need to visit the site.Firstly we need to contact PIDA,with a view to using the Pavillion wall for the camera,and for a space indoors for the recorder.It was pointed out that this will be beneficial to the safety of the Pavillion,and its grounds.Eirian Jones proposed that we send a letter to the committee,Yvonne Griffiths seconded,and Keith Lewis offered to take the letter to the next meeting.

977)Materion yn codi/matters arising contd:

3)Arwydd hewl Glantweli Fach: wedi ei archebu/sign has been ordered.

4)Tendrau seddau—wedi eu hanfon allan /tenders for parish benches have been sent.

5)Swyddog Playdale —eisiau pythefnos eto/Playdale rep.needs another 2 weeks to gather information.

4)Cyfrifon/Finances: cafwyd yn gywir,Eirian Jones yn cynnig a Melfyn Evans yn eilio.Biliau i'w talu/bills to be paid:cyflogau arferol/wages;Melfyn Evans —costau teithio/travelling £13.50;Trywydd/translation--£56.40;Mansel Griffiths(peiriant torri'r Fynwent/mower for Cemetery)-£2,850.00;T.L.Thomas (defnydd ffenso/fencing materials) £58.87.Cynnigiodd Annette Dvaies fod y biliau i'w talu,ac eiliodd Yvonne Griffiths.Mae Mansel Griffiths wedi cynnig £100.00 am hen beiriant y Fynwent.Debyniwyd hyn Yvonne Griffiths yn cynnig ac Annette Davies yn eilio.The old mower will be sold to Mansel Griffiths for £100.00.

5)Cynllunio/Planning:

a)W/31899---discharge of condition(surface water drainage)land adjoining Nant y Gelli,N.I.for Mr.Gary Davies.

b)W/31898---removal of conditions,and variations land adjoining Nant y Gelli for Mr.Gary Davies.

c)W/31931---cais llawn/full planning-renovation of existing dwelling Pant y Bara,Pencader for Mrs.Sadie Warnock.

ch)W/31998—cais llawn/full planning—2 storey extension Bryngolau New Inn for Keith Morgon.

Doedd dim gwrthwynebiad i'r uchod/there were no objections.

6)Gohebiaeth/Correspondence—C.Sir Gar/C.County Council:

1)Robert Edgecombe yn anfon holiadur i'r holl Gynghorau Cymuned i ofyn am ddyddiadau ,a nifer yn unig pryd oedd aelodau wedi mynychu hyfforddiant Côt Ymddygiad.Information request on dates and numbers of when Councillors attended Code of Conduct training.This has been requested of all Councils in Carmarthenshire.

2)Fforwm Cyswllt Lleol—dyddiad y cyfarfod nesa Mai 26ain/Local Forum meeting—Clerk will attend.

3)Holiadur ar Arolwg Datblygu Gwledig/information needed on Rural Development Survey.

4)Swyddfa'r Ombudsmon —cyfarwyddyd diwygiedig ar y Côt Ymddygiad/Ombudsman—revised guidance on the Code of Conduct —can be viewed on www.ombudsman-wales.org.uk.

5)Pensiynnau—angen anfon enw person cyswllt i weithredu ar ein rhan.Cynnigiodd Eirian Jones roi enw ein cyfrifydd Lyn Evans,ac eiliodd Keith Lewis.Pensions Regulator need a contact name to act on behalf of this Council—Eirian Jones proposed our accountant Lyn Evans,and Keith Lewis seconded.The Clerk will ask Lyn Evans.

6)Bwrdd Iechyd/Health Board—dyddiadau digwyddiadau/list of community events.

7)E-bost oddiwrth Julie Mathews yn gofyn am weld cofrestr buddiannau'r Cyngor yma.Esboniwyd yn ystod ein cyfarfod gyda Paul Egan o Un Llais Cymru ei fod wedi ein cynghori,os byddai hyn yn codi,ein bod yn gofyn i'r

978)ymgeisydd am enw'r Cynghorwr sy â diddordeb ganddo,a pham mae'n gwneud ymholiad.Cynnigiodd Melfyn Evans ein bod yn ymateb drwy ofyn y cwestiynnau yma,ac fe eiliodd Annette Davies.An e-mail has been received

from Julie Mathews requesting to see the Register of Interest of this Council. It was pointed out that the advice we were given by Paul Egan of One Voice Wales during his meeting with this Council, was that the applicant was asked regarding which Councillor was under question, and why. Melfyn Evans proposed that we respond by asking this, and Annette Davies seconded.

8) Gwahoddiad oddiwrth WI Pencader/invitation to their 100th celebrations on 01/06/15 at Pencader Pavilion.

7) U.F. Arall – gwybodaeth yn unig/A.O.B. information only:

Sian Thomas---wedi gweld plant yn eu harddegau ar eu beiciau ar y pafin, ac ar yr hewl fawr ym Mhencader. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Heddlu. Teenagers have been seen in Pencader racing on bikes on the pavement, and main road in Pencader.

Glyn Jones---rhai draenau heb eu clirio o hyd/some drains in Pencader have still not been cleared.

Annette Davies----tu fas rhif 1 Glanawmor mae dip yn y tarmac sy ar y pafin/repairs needed to pavement.

Clerc----wedi cael cais gan Tina Evans yn y Siop Sglodion am y posibilrwydd o dâl am gadw'r biniau ail-gylchu ar safle'r siop. Hefyd mae'n achwyn fod pobl yn dod o'r stryd (sy ddim yn gwsmeriaid) i ddefnyddio'r tŷ bach. Bydd y Clerc yn siarad â'r C. Sir L. Evans, a Marc Davies (C. Sir Gar). A request has come from Pencader Chip Shop regarding the possibility of payment for allowing re-cycling bins on the site. There is also a complaint about people walking in off the street to use the toilets. Bydd Val Davies, Haulwen Lewis a'r Clerc yn mynd ar gwrs Côt Ymddygiad 9fed o Fehefin/Code of Conduct training June 9th. Margaret Rees Bro Mafon wedi cysylltu ynghlŷn â'r bedd mae hi'n glanhau ym Mynwent Eglwys Llanfihangel ar arth, ac yn gofyn am y posibilrwydd o roi cement o gwmpas y bedd, ac wedyn fydd dim eisiau ei glanhau. Margaret Rees has questioned the possibility of cementing the grave she tends in the graveyard of Llanfihangel Church. details next meeting.

Yvonne Griffiths---cwyn am hewl Gwyddgrug eto, a'r un sy'n mynd tuag at Pencader. Complaints about Gwyddgrug road, and the one leading to Pencader.

Melfyn Evans---rhiw Alltwalis—rhagor o dir-lithriad ar y top; twll mawr ochr y ffordd wrth ddod mas o Windy Corner; 2 gar yn blocio'r llwybr wrth ochr Heddfryn New Inn o hyd. Further subsidence on Alltwalis hill; hole in the road by Windy Corner entrance; the 2 cars are still blocking the footpath behind Heddfryn New Inn.

Eirian Jones---hewl o Gae'r Onnen i Gwalia ym Mhencader angen sylw/complaints about potholes on the road leading up to Gwalia Pencader.

Gorffennwyd/meeting ended 9.15

Cafwyd cyfarfod i'r Cynghorwyr yn unig i drafod/Extra meeting for Councillors dealt with:

1) Rheolau Sefydlog—pwysleisiwyd rheol (m) ar dudalen 83. "Ni chaniateir tynnu lluniau, recordio na darlledu unrhyw ran o gyfarfod y Cyngor yma." Cynnigiodd Eirian Jones ein bod yn gweithredu hon, ac eiliodd Annette Davies.

Standing Orders—it was decided to adopt this rule on page 83 point (m)—“no photographing, recording, broadcasting or transmitting the proceedings of a meeting, of this Council, by any means”. Eirian Jones proposed this and Annette Davies seconded.

979) 2) Arolwg cyflogau: gadawodd y Clerc yr ystafell. Cynnigiodd Yvonne Griffiths fod y 3 gweithiwr yn derbyn 5% o gyflog i'w dalu 'run dyddiad â llynedd, eiliodd Melfyn Evans, ac roedd pawb yn unfrydol. The Clerk left the room. Staff wages will rise 5%, and from the same date as last year's increase—Yvonne Griffiths proposed and Melfyn Evans seconded. All were in agreement.

Adroddiad ariannol/financial report:

Taliadau/payments:

Haydn Jones	240.51
Janet Jones	129.19
Anita Evans	341.86
Trywydd	56.40
Melfyn Evans(teithio)	13.50
Mansel Griffiths(peiriant)	£2850.00
TLThomas	58.87
HMRC	186.60
Aon(ysiwriant)	719.87

Derbyniadau/receipts:

Yn y Banc(Mai 5ed)	£64,317.94
Praecept	12,333.34
Lyn Evans(ail-lythrennu)	30.00
claddu yn Alltwalis	100.00
(ymgymerwr Peter Evans Talacharn)	

Cyfanswm:

£4,596.80

£76,781.28

Yn y Banc Mehefin 7fed 2015

£72,184.48
